

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

CYMDEITHAS BOB OWEN
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn
(Awst-Gorffennaf neu
Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon i'r
Trysorydd

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dr Rhidian Griffiths
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion

Ysgrifennydd:
Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174

Trysorydd:
Miss Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre, Bow Street
Ceredigion SY24 5AD
(01970) 820235

Trefnydd Hysbysebion:

Gwilym Tudur
Siop y Pethe, Aberystwyth
Ceredigion
(01970) 617120

Golygydd:

Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
ebost:tanycastell@yahoo.com
(01678) 540652

Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:

Y Swyddogion
Dr Brynley Roberts
Dafydd Jones
Dr R. Geraint Gruffydd
Dr E. Wyn James
Dafydd Glyn Lloyd Hughes M.A.
Rheinallt Llwyd
Huw Ceiriog Jones
Mrs Mair Edwards
Dr Maredudd ap Huw
Deian ap Rhisiart

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân
hysbysebion i'r **GOLYGYDD**

ERBYN IONAWR 17

Neilltuo gofod hysbysebu i'r

TREFNYDD HYSBYSEBION

ERBYN IONAWR 17

Copi o'r hysbyseb i'r

GOLYGYDD

ERBYN IONAWR 20



**Gwasg
Gwynedd**

Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD

Argraffwyr a Chyhoeddwyr

Ffôn: (01286) 674486

Gwasanaeth y Deillion

Mae'r gymdeithas uchod yn
darparu tapiau llafar o erthyglau sy'n
ymddangos yn y Casglwr i
Danysgrifwyr y Gymdeithas.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â
Miss Anne K. Till, 01970 820235.

Golygyddol

Er gwaetha'r tywydd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol, bu cryn nifer o aelodau yn ymweld â'r babell, a bu'r raffl yn hynod lwyddiannus unwaith eto. Diolch i chi am eich cefnogaeth hael yn gyrru'r bonion drwy'r post. Diolch, hefyd, i'r rhai a gytunodd yn yr Eisteddfod, i newid eu tanysgrifiadau. Mae hyn o gymorth mawr inni ond mae angen i lawer mwy edrych ar eu taliadau blynyddol gan fod rhai yn dal i dalu £2 ac eraill £5 yn hytrach na £7.50.

Aeth y Ffair Lyfrau rhagddi yn foddhaol iawn a mwy o stondinau yn y Bala cleni nag erioed o'r blaen. Bwm yn ffodus i gael y Dr Bruce Griffiths i'w hagog yn swyddogol. Byrdwn ei sgwrs oedd y dylai'r Gymdeithas ledu ei hadennydd rywfaint i'r de a chynnal ffeiriau llyfrau yng Nghaerdydd neu Gaerfyrddin. Galwodd ar y Gymdeithas, hefyd, i gyhoeddi cyfraniadau Bob Owen megis Dryllio'r Delwau ac ati. Ychwanegodd y dylid ystyried cynnal Cwrs Atgyweirio Llyfrau ail-law. Wel, rydw i eisoes wedi cychwyn cyhoeddi cyfraniadau Bob Owen, ac mi fyddai'n dda o beth

ymhen amser i fynd ati i'w cyhoeddi. Mi ddylwn, yn sicr, drafod yr argymhellion eraill y cyfeiriodd Bruce Griffiths atynt, a dwi'n ffyddiog hefyd mai y cam nesaf yw Gŵyl Lyfrau Genedlaethol a fydd yn para dros y penwythnos.

Dro ar ôl tro caf ymholiadau ar y ffôn yn holi am lyfrau ar ôl gweld rhyw gyfrol neu'i gilydd a hysbysebwyd yn *Y Casglwr* ac a fenthycwyd gan aelod. Mae hyn yn digwydd hefyd gyda'n papurau wythnosol ni, megis *Y Cymro*, *Yr Herald* ac ati. Mi fyddwn yn hapus iawn pe byddai aelodau yn ceisio cael eu ffrindiau i ymaelodi â'r Gymdeithas yn hytrach na rhoi benthyg eu copiau hwy iddynt. Drwy'r weithred syml yma mi fyddai nifer y tansgrifwyr yn chwyddo.

Gan fod y diwrnod dathlu ym Mhorthmeirion wedi bod yn llwyddiant ysgubol, yn ôl y llythyrau yr wyf i wedi'u derbyn, rwy'n barod iawn i dderbyn syniadau gennych o'r man yng Nghymru a fyddai'n gweddu inni gynnal gŵyl debyg yn y dyfodol agos. Gadwch imi wybod.

At y Golygydd

Gwên-y-wawr,
New Inn,
Pencader
Aberystwyth

Carthen Pwllheli

Annwyl Olygydd,

Wedi cyhoeddi'r rhifyn diwethaf o'r *Casglwr* daeth llythyr i'r golwg a anfonwyd yn 1927 at y Dr. Cyril Fox, pennaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru, gan W. P. Crankshaw, un a fu'n ddyfal ymchwilio i gyflwr y Diwydiant Gwlân yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw. Rhydd hanes ymgom rhyngddo a chyn-berchennog Ffatri Wlân Pwllheli sy'n datguddio mai llun o Gastell Caernarfon ar ei hun oedd ar y garthen gyntaf o waith John Roberts. Gan fod rhifyn 2 Mai 1868 o'r *Herald Cymraeg* yn cyfeirio at rodd dienw i'r tywysog gan John Roberts yn ystod ei ymweliad, dyna ddatrys un o ddirgelion hanes y garthen a dangos mai ychwanegiad diweddarach oedd y llun o Goleg Aberystwyth.

Mae'r llythyr yn cadarnhau mai gan John Roberts ei hun y prynodd perchennog Ffatri Wlân Pwllheli y patrwm newydd, ond wrth ddwend ymhellach fod y garthen wedi cael ei chynhyrchu ym Mhllheli am

gyfnod o hanner can mlynedd (cyn dyddiad y llythyr) mae hynny'n codi cwestiwn oherwydd mi olygai mai rhwng 1872 - blwyddyn agor Coleg Aberystwyth ac 1875 y rhoddwyd yr archeb i'w gwneud, naill ai gan Edward Davies Bryan, a fyddai yn y cyfnod hwnnw ond yn ei ugeiniau cynnar neu hwyrach gan John Bryan, ei frawd hynaf, a oedd wedi agor dwy siop yn Alecsandria a Chairo yn yr Aifft. Credir fod gan y brodyr Bryan siop yng Nghaernarfon hefyd.

Mae'n ymddangos mai camgymeriad am 30 o flynyddoedd oedd yn llythyr Crankshaw gan mai yn 1895 y sicrhodd John Griffith Jones y llythyr breiniol. Serch hynny, erys y posibilrwydd hefyd fod John Roberts wedi cynhyrchu rhai cartheni ar gyfer eu gwerthu yn siopau teulu Bryan am gyfnod cyn i patrwm gael ei werthu i Bwllheli.

Gwyddys erbyn hyn yn sicr mai rhwng 1882 ac 1887 y bu Joseph Davies Bryan yng Ngholeg Aberystwyth.

Beth arall tybed, sydd eto i ddod i'r golwg yn hanes y garthen arbennig hon?

D. G. LLOYD HUGHES

Enillwyr Raffl Fawr y Gymdeithas

Crochenwaith Porthmeirion: Mrs J. Bland, Lochturvin, Mathry, Hwlfordd.

Grogg o Bryn Terfel: Dr Islwyn Williams, Garthowen, Gorslas, Llanelli

Casgliad o Gyhoeddiadau'r Llyfrgell Genedlaethol: Mr Gwyn Hughes,
Llys Cerdd, Arthog, Gwynedd

Cloc ar lechen: Mr Conrad Davies, Erw Hir, Llanarthne, Caerfyrddin

Basged o nwyddau Cymru: Miss Sybil Adam, 19 Ffordd Athol, Bramhall,
Stockport

Tocyn llyfr £15: Miss Bethan Stacey, 10 Ffordd Allerton, Grangetown,
Caerdydd

Tocyn llyfr £10: Dafydd Huw, Bron Heulwen, Fyny'r Allt, Llanrwst,
Gwynedd

Tanysgrifiad Blynyddol o Gymdeithas Bob Owen: Mr Hefin Williams,
63 Ffordd Wern Ddu, Rhydaman